## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A477 (SANCLÊR, SIR GAERFYRDDIN I DDOC PENFRO, SIR BENFRO) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2024

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A477, neu gerllaw iddi, rhwng Sanclêr, Sir Gaerfyrddin a Doc Penfro, Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder o naill ai 40 mya neu 10 mya a gwahardd goddiweddyd ar y darn o gefnffordd yr A477 sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Chylchfan Sanclêr hyd at ei chyffordd â Chylchfan Waterloo, Doc Penfro, gan gynnwys system gylchu'r gylchfan honno. Disgwylir i'r terfyn cyflymder o 10 mya fod yn gymwys yn ystod gwaith confoi.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 5 Mawrth 2024. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro yn weithredol o 00:01 o'r gloch ar 5 Mawrth hyd 23:59 o'r gloch ar 18 Mawrth 2024 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn dechrau unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A477 TRUNK ROAD (ST CLEARS, CARMARTHENSHIRE TO PEMBROKE DOCK, PEMBROKESHIRE) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS & NO OVERTAKING) ORDER 2024

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A477 trunk road between St Clears, Carmarthenshire and Pembroke Dock, Pembrokeshire.

The effect of the Order is to temporarily impose either a 40 mph or 10 mph speed limit and prohibit overtaking on the length of the A477 trunk road that extends from the centre-point of its junction with St Clears Roundabout to its junction with, and including the gyratory of, Waterloo Roundabout, Pembroke Dock. The 10 mph speed limit is expected to apply during convoy working.

The Order comes into force on 5 March 2024. The temporary restrictions and prohibition are expected to operate from 00:01 hours on 5 March until 23:59 hours on 18 March 2024 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government